# Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

**2024 dsc 4**

**RHAN 3**

COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

### 14 Personau na chaniateir iddynt fod yn aelodau o'r Comisiwn neu'n brif weithredwr arno

(1) Yn adran 4(3) o Ddeddf 2013 (personau na chaniateir eu penodi yn aelodau o'r Comisiwn)—

(a) yn lle "Ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person sydd yn" rhodder "Ni chaiff aelod fod yn";

(b) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) aelod o un o ddeddfwrfeydd y DU;";

(c) yn lle paragraff (b) rhodder—

"(ba) person a gymerir ymlaen gan aelod o un o ddeddfwrfeydd y DU, o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau, mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r aelod;

(bb) person a gymerir ymlaen gan blaid wleidyddol gofrestredig o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau;

(bc) cynghorydd arbennig;".

(2) Yn adran 8(4) o'r Ddeddf honno (personau na chaniateir eu penodi yn brif weithredwr) —

(a) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) aelod o un o ddeddfwrfeydd y DU;";

(b) yn lle paragraff (b) rhodder—

"(ba) person a gymerir ymlaen gan aelod o un o ddeddfwrfeydd y DU, o dan gontract gwasanaeth neu gontract am

wasanaethau, mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r aelod;

(bb) person a gymerir ymlaen gan blaid wleidyddol gofrestredig o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau;

(bc) cynghorydd arbennig;".

(3) Yn adran 72(1) o'r Ddeddf honno (dehongli), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "aelod o un o ddeddfwrfeydd y DU" yw—

(a) Aelod o'r Senedd;

(b) aelod o Dŷ'r Cyffredin;

(c) aelod o Dŷ'r Arglwyddi;

(d) aelod o Senedd yr Alban;

(e) aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon,";

"ystyr "cynghorydd arbennig" yw cynghorydd arbennig o fewn yr ystyr a roddir i "special adviser"—

(a) ym Mhennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25), neu

(b) yn adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Sifil (Cynghorwyr Arbennig) (Gogledd Iwerddon) 2013 (p. 8 (G.I.)),";

"ystyr "plaid wleidyddol gofrestredig yw plaid sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41),".

(4) Yn Atodlen 3 i'r Ddeddf honno (mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio), yn nhabl 2—

(a) ar ôl y cofnod ar gyfer "aelod cadeirio" mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Aelod o un o ddeddfwrfeydd y DU (*Member of a UK legislature*) | Adran 72(1)"; |

(b) ar ôl y cofnod ar gyfer "cyfarfod cymunedol" mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Cynghorydd arbennig (*Special adviser*) | Adran 72(1)"; |

(c) ar ôl y cofnod ar gyfer "newid i sir wedi ei chadw" mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Plaid wleidyddol gofrestredig (*Registered political party*) | Adran 72(1)". |